HEDDLU GWENT POLICE

WE DON'T BUY CRIME

# KEYLESS COULD BE CARLESS

Cars with keyless entry unlock automatically when the key comes within a short-range distance of the car.

The theft, also known as **'relay theft',** occurs when a device is used to fool the car into thinking the key is close by; this unlocks the car and allows the ignition to be started.

ANFONWCH NEGES UNIONGYRCHOL ATOM AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL PAN NAD YW'N ARGYFWNG 999

DIRECT MESSAGE US ON SOCIAL MEDIA WHEN IT'S LESS URGENT THAN 999

PAN NAD YW'N ARGYFWNG 999

101

WHEN IT'S LESS URGENT THAN 999

Always call **999** when your personal safety is under threat.

Cymru/Wales

CrimeStoppers.

0800 555 111

Trowch drosodd am fersiwn Cymraeg.

## WHAT CAN I DO?

### KEEP CAR KEYS SAFE

Whilst at home, keep your car keys away from the car to disrupt communication range. Avoid leaving them near your door or window.

### USE A SIGNAL-BLOCKING POUCH

The pouch can block the transmission of the signal from the car key once inside the pouch.

### TURN OFF THE FOB'S WIRELESS SIGNAL

Look in your car manual to see if this is possible, if not, contact your vehicle manufacturer.

### RE-PROGRAMME YOUR KEYS

This erases the code from the car key to the car itself. A spare car key that is not in your possession can no longer be paired with your car leaving it susceptible to theft. Contact your local **Master Locksmith Association (MLA)** approved auto locksmith for a quote.

### STEERING WHEEL LOCK

Strongly consider using a steering wheel lock. This can be an effective tool in the fight against keyless thefts, purely for the reason that it cannot be compromised via technology!

### SOFTWARE UPDATES

Contact your car dealer and check if your vehicle has any outstanding software updates, which may improve security.

### ON-BOARD DIAGNOSTIC (OBD) PORT

Some thefts involve thieves breaking into a vehicle and accessing the OBD port to start the car. Below are a few options that may help secure your vehicle from this method of theft:

- **Contact your local dealership or an auto electrician to relocate the OBD port in your vehicle**
- **consider the use of an ODB port protective cover or lock guard**
- **consider a remote central locking keyless system upgrade or an upgraded immobiliser system to protect your vehicle. This can be very costly and only to be considered for higher end prestige vehicles.**

### PARKING

- **If you have a garage, use it to secure your vehicle in**
- **if you park on a driveway, park as close to the property as you can**
- **if you have more than one vehicle on your driveway, park the less desirable vehicle in front of the more desirable vehicle to block its access**
- **installation of driveway posts, wheel clamps and trackers are also effective ways of protecting vehicles from thieves.**

### THATCHAM RESEARCH CONSUMER SECURITY RATING

Thatcham's consumer security rating keeps drivers informed of the theft risk of new cars and assesses a new vehicle's all-round security. This can be a handy tool to check before purchasing a vehicle. You can access the information via:
**www.thatcham.org/what-we-do/security/my-vehicle-search/**

2273_01

HEDDLU GWENT POLICE

DANGOS Y DRWS I DROSEDD

# DIM ALLWEDD DIM CERBYD

Mae ceir sydd â mynediad di-allwedd yn datgloi'n awtomatig pan ddaw'r allwedd yn agos at y car.

Mae'r lladrad, a elwir hefyd yn **'lladrad trosglwyddo'**, yn digwydd pan ddefnyddir dyfais i dwyllo'r car bod yr allwedd yn agos; mae hyn yn datgloi'r car gan ei gwneud yn bosibl ei gychwyn.

ANFONWCH NEGES UNIONGYRCHOL ATOM AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL PAN NAD YW'N ARGYFWNG 999

DIRECT MESSAGE US ON SOCIAL MEDIA WHEN IT'S LESS URGENT THAN 999

PAN NAD YW'N ARGYFWNG 999 | 101 | WHEN IT'S LESS URGENT THAN 999

Ffoniwch **999** bob tro pan fo bygythiad i'ch diogelwch personol.

Cymru/Wales CrimeStoppers. 0800 555 111

Turn over for English.

## BETH ALLAF I EI WNEUD?

### CADWCH ALLWEDDI EICH CAR YN DDIOGEL
Tra byddwch gartref, cadwch eich allweddi i ffwrdd o'r car er mwyn amharu ar bellter trosglwyddo. Peidiwch â'u gadael wrth eich drws neu ffenestr.

### DEFNYDDIWCH GWDYN SY'N RHWYSTRO'R SIGNAL
Gall y cwdyn hwn rwystro'r signal o allwedd y car rhag cael ei drosglwyddo.

### DIFFODDWCH SIGNAL DIWIFR Y FFOB
Edrychwch yn llawlyfr eich car i weld a yw hyn yn bosibl, os nad ydyw, cysylltwch â gwneuthurwr eich cerbyd.

### CEISIWCH AIL-RAGLENNU EICH ALLWEDDI
Mae hyn yn dileu'r cod rhwng yr allwedd a'r car ei hun. Ni ellir paru allwedd car sbâr nad yw yn eich meddiant â'ch car mwyach ac mae hyn yn ei wneud yn llai agored i ladrad. Cysylltwch â'ch saer cloeon cerbydau lleol a gymeradwyir gan **Gymdeithas y Seiri Clo (MLA)** am ddyfynbris.

### CLO AR GYFER YR OLWYN LYWIO
Ystyriwch o ddifri ddefnyddio clo olwyn lywio. Gall hwn fod yn arf effeithiol yn y frwydr yn erbyn lladradau di-allwedd, am y rheswm na ellir amharu arno drwy dechnoleg!

### DIWEDDARIADAU MEDDALWEDD
Cysylltwch â'ch gwerthwr ceir a gwiriwch i weld a oes unrhyw ddiweddariadau meddalwedd ar gael ar gyfer eich cerbyd a allai wella diogelwch.

### PORTH DIAGNOSTIG Y CERBYD (OBD)
Mewn rhai lladradau mae lladron yn torri i mewn i gerbyd a chael gafael ar borth yr OBD i gychwyn y cerbyd. Isod mae rhai dewisiadau a allai helpu i ddiogelu eich cerbyd rhag y dull hwn o ladrata:

- **Cysylltwch â'ch gwerthwr ceir lleol neu drydanwr cerbydau i adleoli porth yr OBD yn eich cerbyd. Ystyriwch ddefnyddio gorchudd i ddiogelu porth yr ODB neu giard clo.**
- **Ystyriwch uwchraddio'r system gloi ganolog ddi-allwedd o bell neu osod system lonyddydd wedi'i huwchraddio i ddiogelu eich cerbyd. Gall hwn fod yn gostus iawn a dylid ei ystyried ar gyfer cerbydau drudfawr ym mhen uchaf y farchnad yn unig.**

### PARCIO
- **Os oes gennych garej, defnyddiwch hi i ddiogelu eich cerbyd.**
- **Os ydych yn parcio ar y dreif, parciwch mor agos i'r eiddo ag y gallwch.**
- **Os oes gennych fwy nag un cerbyd ar eich dreif, parciwch y cerbyd llai atyniadol o flaen y cerbyd mwy atyniadol i atal mynediad ato.**
- **Mae gosod pyst ar y dreif, clampiau olwynion a thracwyr hefyd yn ffyrdd effeithiol o ddiogelu cerbydau rhag lladron.**

### YMCHWIL THATCHAM SGÔR DIOGELWCH DEFNYDDWYR
Mae sgôr diogelwch defnyddwyr Thatcham yn rhoi gwybod i yrwyr am y risg dwyn ceir newydd ac yn asesu diogelwch cyffredinol cerbyd newydd. Gall hwn fod yn offeryn defnyddiol i wirio cyn prynu cerbyd. Gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth drwy:
**www.thatcham.org/what-we-do/security/my-vehicle-search/**

2273_01